Cymru Ifanc
Young Wales

Medi 2016

This briefing is bilingual, click here for the English version.

Croeso i gylchlythyr Cymru Ifanc

Gwaith cyfranogi yw Cymru Ifanc wedi'i gynnal gan Blant yng Nghymru a'n sefydliadau partner, a chaiff ei ariannu gan Lywodraeth Cymru.

Bydd Cymru Ifanc yn sicrhau bod lleisiau plant a phobl ifanc yn cael eu clywed am faterion sy'n bwysig iddynt hwy, a bod y materion hyn yn cael eu clywed gan Lywodraeth Cymru'n arbennig.

Fesul mis byddwn yn dod â'r newyddion diweddaraf i chi, yn cynnwys diweddariadau am y gwaith sy'n cael ei wneud gan fforymau a grwpiau eraill ledled Cymru.

Os hoffech gyfrannu unrhyw beth, e-bostiwch info@childreninwales.org.uk.

Contents

1. Blaenoriaethau Cymru Ifanc ar gyfer 2016-17
2. Safonau Cyfranogi
3. Holiadur Haf Blynyddol Cymru Ifanc 2016
4. Cynllun tlodi tanwydd a arweinir gan alw yn y dyfodol i olynu Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru - Nyth
5. Blaenoriaethau deddfwriaethol y flwyddyn gyntaf ar gyfer Llywodraeth Cymru

---

Blaenoriaethau Cymru Ifanc ar gyfer 2016-17

Fel rhan o lansio Cymru Ifanc ym mis Mawrth 2015, nododd pobl ifanc o fforymau ieuenctid ledled Cymru y chwe blaenoriaeth roedden nhw am i Cymru Ifanc eu cynnwys yn eu cynllun gwaith.

Yn ddiweddar mae tim Cymru Ifanc wedi cynnal trafodaethau ynghylch sut mae symud ymlaen gyda'r blaenoriaeth hyn yn 2016-17. Llywiwyd y drafodaeth hon hefyd gan y blaenoriaethau a gyhoeddwyd yn ddiweddar, a nodwyd gan Sally Holland a'i thim yn Swyddfa'r Comisiynydd Plant.

Y cyfan wedi'i seilio ar ymrwymiad i CCUHP. Mae Cymru Ifanc wedi penderfynu mai eu ffocws eleni o ran blaenoriaethau fydd:

- Llesiant plant a phobl ifanc, a fydd yn cynnwys iechyd meddwl, dan arweiniad Andrea Storer
- Newid yn yr hinsawdd, dan arweiniad Chris Richards
- Gwaith gwrthfwlio, dan arweiniad Sarah Thomas
- ABCh a'r datblygiadau addysg sy'n deillio o adolygiad Donaldson, dan arweiniad Mandy Davies
- Bydd hawliau plant a CCUHP yn parhau'n flaenoriaeth mewn perthynas a chasglu tystiolaeth i lywio adroddiadau'r CU yn y dyfodol, gyda Lynne Hill yn arwain y gwaith
- CCUHP hefyd fydd y thema sy'n darparu sylfaen ar gyfer holl waith Cymru.

Ewch i wefan Cymru Ifanc am ragor o wybodaeth.

Safonau Cyfranogi

Mae'r Safonau Cyfranogi, a ddatblygwyd yn wreiddiol gan yr Uned Gyfranogi, wedi eu hadnewyddu drwy bartneriaeth rhwng gweithwyr Fforwm Ieuenctid a Chymru Ifanc, wedi'u hysbysu gan ymgynghoriadau gyda phobl ifainc.

Gellir gweld y safonau yma: Safonau Cyfranogi.

Noda'r Safonau Cyfranogi y materion allweddol y dylai holl weithwyr fod yn ymwybodol ohonynt wrth weithio gyda phlant a phobl ifainc yng Nghymru. Adolygodd y gweithgor a ymgymerodd â'r gwaith bob un o'r saith safon. Sicrhaodd bod pob un yn adlewyrchu yr ethos seiliedig ar hawliau sy'n hanfodol i weithio â phlant a phobl ifainc.

Mae aelodau o'r Grwp Tasg a Gorffen Safonau Cyfranogi, ar ran Rhwydwaith Gweithwyr Cyfranogi Cymru Gyfan, yn falch o gyhoeddi lansiad y 7 Safon Cyfranogi Cenedlaethol ar eu newydd wedd.

"Dymunwn bwysleisio pwysigrwydd y safonau a'r cyswllt amlwg sydd ganddynt ag agenda Hawliau Plant yng Nghymru."

Dilynir lansiad y safonau ar eu newydd wedd gan ganllawiau diwygiedig ar y broses nodau barcut a'r offer hunan-asesiad, i'w defnyddio mewn Awdurdodau Lleol, sydd â thîm arolygu. Anogir sefydliadau sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifainc i ymgymryd â'r broses hunan-asesu i ddangos eu bod yn cwrdd â'r Safonau Cyfranogi yn eu holl waith gyda phlant a phobl ifainc.

Datblygir Siarter newydd gan y gweithgor, yn seiliedig ar dair colofn danategol CCUHP gan ymdrin â Gwarchodaeth, Darpariaeth a Chyfranogi. Bydd yn agored i holl sefydliadu sy'n gweithio â phlant a phobl ifainc yng Nghymru.

Holiadur Haf Blynyddol Cymru Ifanc 2016

Croeso i holiadur haf blynyddol cyntaf Cymru Ifanc.

Bob blwyddyn bydd Cymru Ifanc yn cyhoeddi holiadur, sydd wedi ei ddatblygu gan ein Bwrdd Prosiect Cymru Ifanc, gan dynnu ar Sylwadau Casgliadol Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a gafodd eu cyhoeddi yn 2016.

Bydd y dystiolaeth sy'n cael ei chasglu o'r holiadur yn cael ei defnyddio i lywio gwaith Cymru Ifanc ac i gyfrannu at dystiolaeth sy'n cael ei chyflwyno mewn ymateb i alwadau am dystiolaeth am UNCRC yn y dyfodol.

Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion yw 14 Hydref 2016.

Mae'r holiadur ar gael yn: https://www.surveymonkey.co.uk/r/TZM78VF

Cynllun tlodi tanwydd a arweinir gan alw yn y dyfodol i olynu Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru - Nyth

Mae Llywodraeth Cymru yn gofyn am eich barn ar gynllun tlodi tanwydd i olynu ei rhaglen bresennol Cartrefi Clyd - Nyth, a fydd yn dod i ben ym Medi 2017.

Gall Llywodraeth Cymru wneud gwahaniaeth gwirioneddol i aelwydydd incwm isel drwy wella effeithlonrwydd ynni cartrefi yng Nghymru, gydag adnoddau pwrpasol ar gyfer yr aelwydydd hynny â'r angen mwyaf am gefnogaeth. Y tri phrif ffactor sy'n effeithio ar siawns aelwyd o ddioddef tlodi tanwydd yw incwm yr aelwyd, prisiau ynni ac effeithlonrwydd ynni'r cartref.

Mae ymatebion yn cael eu ceisio oddi wrth randdeiliaid ar ddyluniad a darpariaeth cynllun newydd i gymryd lle Nyth o Fedi 2017 ymlaen.

Y dyddiad cau am ymatebion yw 9 Hydref 2016.

Ewch i wefan Llywodraeth Cymru am ragor o wybodaeth.

Blaenoriaethau deddfwriaethol y flwyddyn gyntaf ar gyfer Llywodraeth Cymru

Mae Prif Weinidog Cymru, Carwyn Jones AC, wedi cyhoeddi rhaglen ddeddfwriaethol am flwyddyn gyntaf tymor y Cynulliad hwn.

Bydd chwe Bil yn cael eu cyflwyno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn ystod 2016-17, sef:

- dau Fil Treth i sefydlu datganoli dwy dreth yng Nghymru yn Ebrill 2018;
- deddfwriaeth newydd i ddiddymu adrannau o Ddeddf Undebau Llafur Llywodraeth y DU mewn ardaloedd datganoledig;
- Bil Iechyd y Cyhoedd i gyflawni gwelliannau i iechyd y genedl;
- deddfwriaeth i ddiogelu stoc tai cymdeithasol Cymru drwy ddiddymu'r Hawl i Brynu a'r Hawl i Gaffael;
- Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol i ddarparu ar gyfer fframwaith cyfreithiol newydd i gefnogi plant a phobl ifanc, 0-25 oed, y mae ganddynt anghenion dysgu ychwanegu.

Ewch i wefan Llywodraeth Cymru am ragor o wybodaeth.

Cymru Ifanc
Young Wales

September 2016

Welcome to the Young Wales newsletter

Young Wales is the participation work that is being run by Children in Wales and our partner organisations, and is funded by the Welsh Government.

Young Wales will ensure that children and young people are heard on issues that are important to them, and in particular that these issues are heard by the Welsh Government.

Each month we will bring you the latest news, including updates on the work that is being done by forums and other groups across Wales.

If you have anything you'd like to contribute, please email info@childreninwales.org.uk.

Contents

1. Young Wales priorities for 2016-17
2. Participation Standards
3. Young Wales Annual Summer Questionnaire 2016
4. A future demand-led fuel poverty scheme to succeed Welsh Government Warm

Homes - Nest
5. First year legislative priorities for the Welsh Government

---

Young Wales priorities for 2016-17

As part of the Young Wales launch in March 2015, young people from youth forums across Wales identified the six priorities that they wanted Young Wales to build in to their work plan.

The Young Wales team has recently held discussions on how to take the priorities forward in 2016-17. This discussion was also informed by the recently published priorities identified by Sally Holland, and her team at the Office of the Children's Commissioner.

Young Wales has decided that their focus for this year, in terms of priorities, will be:

- Children and young people's well-being, which will include mental health, led by Andrea Storer
- Climate change led by Chris Richards
- Anti-bullying work led by Sarah Thomas
- PSE and the education developments coming from the Donaldson review, led by Mandy Davies
- Children's rights and UNCRC will remain a priority in relation to evidence gathering to inform future UN reports, with the work led by Lynne Hill
- The UNCRC will also be the underpinning theme for all Young Wales work.

Visit the Young Wales website for more information.

Participation Standards

The Participation Standards, developed originally by the Participation Unit, have been refreshed by a partnership between Youth Forum workers and Young Wales, informed by consultations with young people.

The Participation Standards can be seen here: Participation Standards.

The Participation Standards identify the key issues that all workers should be aware of when working with children and young people in Wales. The working group that undertook the work, reviewed each of the seven standards and ensured that each one reflected the rights based ethos that is integral to working with children

and young people.

Members of the Participation Standards Task and Finish Group, on behalf of the All Wales Participation Workers Network, are happy to announce the launch of the refreshed 7 National Participation Standards.

"We would like to stress of the importance of the standards and the explicit link that they now have to the Children's Rights agenda in Wales."

The launch of the refreshed standards will be followed up with revised guidance on the kite-marking process and the self-assessment tools, for use in Local Authorities, who have an inspection team. Organisations who work with children and young people will be encouraged to undertake the self assessment process to demonstrate they the meet the Participation Standards in all their work with children and young people.

A new Charter will also be developed by the working group, based on the three underpinning pillars of the UNCRC addressing Protection, Provision and Participation, and will be open to all organisations working with children and young people in Wales.

Young Wales Annual Summer Questionnaire 2016

Welcome to the first Young Wales annual summer questionnaire.
Each Year Young Wales will publish a questionnaire, developed by our Young Wales Project Board, drawing on the UN Committee on the Rights of the Concluding Observations published in 2016.

The evidence we gather from the questionnaire will be used to inform the work of Young Wales and contribute to evidence submitted to future UNCRC calls for evidence.

The closing date for responses is 14 October 2016.

The questionnaire is available at: https://www.surveymonkey.co.uk/r/2DKBDDG

A future demand-led fuel poverty scheme to succeed Welsh Government Warm Homes - Nest

The Welsh Government is seeking your views on a fuel poverty scheme to succeed the current Welsh Government Warm Homes - Nest programme, which will come to an end in September 2017.

The Welsh Government can make a real difference to low-income households by improving the energy efficiency of homes in Wales, with targeted resources for those households most in need of support. The three main factors that influence whether a household will experience fuel poverty are household income, energy prices and the energy efficiency of the home.

Responses are being sought from stakeholders on the design and delivery of a new

scheme to replace Nest from September 2017.

The closing date for responses is 9 October 2016.

Visit the Welsh Government website for more information.

First year legislative priorities for the Welsh Government

The First Minister, Carwyn Jones AM, has announced the legislative programme for the first year of this Assembly term.

Six Bills will be introduced to the National Assembly for Wales during 2016-17. These will be:

- Two Tax Bills to establish the devolution of two taxes to Wales in April 2018;
- new legislation to repeal sections of the UK Government's Trade Union Act in devolved areas;
- a Public Health Bill to deliver improvements to the nation's health;
- legislation to safeguard Wales' social housing stock by abolishing the Right to Buy and the Right to Acquire;
- an Additional Learning Needs Bill to provide for a new legal framework for supporting children and young people, aged 0-25, who have additional learning needs.

Visit the Welsh Government website for more information.